3,541	0	0	127,390	43	Holl trafndiaeth
					Tai:
2,562	0	0	103,547	35	Cyfrif refeniw tai (HRA)
99,887	6	0	117,305	40	Tai cronfa'r cyngor
.	66	.	66	-	Arall
102,449	72	0	220,919	75	Holl tai
					Llyfrgelloedd, diwydiant a threftadaeth:
0	0	0	3,170	1	Gwasanaeth llyfrgelloedd
0	0	0	3,110	1	Amgueddfeydd ac orielau celf
851	0	0	10,833	4	Gweithgareddau a chyfleusterau celfyddydau
851	0	0	17,113	6	Holl llyfrgelloedd, diwylliant a threftadaeth
					Amaethyddiaeth a physgodfeydd:
0	0	0	2,386	1	Traenio ac atal llifogydd
0	0	0	1,019	-	Amddiffyn yr arfordir
0	0	0	1,394	-	Amaethyddiaeth a physgodfeydd eraill
0	0	0	4,799	2	Holl amaethyddiaeth a physgodfeydd
					Chwaraeon ac hamdden:
53	0	0	35,270	12	Cyfleusterau chwaraeon
419	0	0	9,683	3	Datblygu chwaraeon
472	0	0	44,953	15	Holl chwaraeon ac hamdden

Ffynhonnell: ffurflenni alldro cyfalaf

B1 (parhad) Gwariant cyfalaf, yn ôl gwasanaeth, 2003-04

Gwasanaeth	Caffaeliad tir ac adeiladau cynfodol	Adeiladwaith, trawsnewidiadau ac adnewyddiadau newydd	Cerbydau	Offer a pheiriannau ffatri	Gwariant ar asedau sefydlog
Gwasanaethau amgylcheddol eraill:					
Tir diffaith adfer	35	9,902	0	8	9,945
Parciau a mannau agored	176	7,662	99	423	8,360
Casglu gwastraff	0	2,185	658	682	3,525
Gwaredu gwastraff	2,485	4,700	50	102	7,337
Gweinyddu cyffredinol	3,211	29,509	1,604	14,475	48,799
Cynllunio a datblygu	1,021	32,413	24	440	33,897
Diogelwch cymunedol	0	1,763	16	1,392	3,171
Iechyd yr amgylchedd	0	4,123	145	191	4,459
Amrywiol	10	1,359	159	280	1,807
Diwydiannol a masnachol	311	11,763	0	23	12,097
Gwasanaethau masnachu eraill	0	3,199	1,246	476	4,921
Holl gwasanaethau amgylcheddol eraill	7,249	108,577	4,001	18,491	138,318
Y gyfraith, trefn a gwasanaethau diogelu:					
Heddlu	2,512	9,105	8,830	12,034	32,481
Gwasanaeth tân ac amddiffyn sifil	0	2,466	1,112	1,040	4,618
Llysoedd y crwneriaid	0	0	0	0	0
Llysoedd ynadon	0	1,557	37	146	1,740
Holl y gyfraith, trefn a gwasanaethau diogelu	2,512	13,128	9,979	13,220	38,839
Arall (c)
Cyfanswm pob gwasanaeth	19,631	532,211	15,301	45,611	612,755

- (a) Yn cynnwys cwfert credyd ar gyfer trefniadau credyd.
- (b) Mae cyfrifiadau £ y pen yn defnyddio amcangyfrifon canol-blwyddyn y Cofrestrdydd Cyffredinol o'r boblogaeth ar gyfer 2003.
- (c) Mae hyn yn cynnwys addasiadau ar gyfer gwariant a derbyniadau a dynnir neu sydd i'w talu mewn un flwyddyn ond y telir amdanynt neu a ddaw i law mewn blwyddyn arall, ynghyd â rhai categorïau o wariant referniw megis gwariant ar gyfer taliadau afreidedd, y mae gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru bŵer i roi cyfarwyddyd yn ei erbyn o dan adran 40(6) o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai, i ganiatáu i'r awdurdodau lleol ei drin fel gwariant cyfalaf.

B1 (parhad) Gwariant cyfalaf, yn ôl gwasanaeth, 2003-04

£ miloedd

Grantiau cyfalaf	Blaensymiau cyfalaf	Arall (a)	Cyfanswm gwariant cyfalaf	Cyfanswm gwariant cyfalaf (£ y pen) (b)	Gwasanaeth
0	0	0	9,945	3	Gwasanaethau amgylcheddol eraill:
178	0	0	8,538	3	Tir diffaith adfer
0	0	0	3,525	1	Parciau a mannau agored
208	0	0	7,545	3	Casglu gwastraff
286	0	0	49,085	17	Gwaredu gwastraff
14,896	0	0	48,793	17	Gweinyddu cyffredinol
89	0	0	3,260	1	Cynllunio a datblygu
0	0	0	4,459	2	Diogelwch cymunedol
1,076	0	0	2,883	1	Iechyd yr amgylchedd
523	0	0	12,620	4	Amrywiol
90	0	0	5,011	2	Diwydiannol a masnachol
17,346	0	0	155,664	53	Gwasanaethau masnachu eraill
					Holl gwasanaethau amgylcheddol eraill
					Y gyfraith, trefn a gwasanaethau diogelu:
33	0	275	32,789	11	Heddlu
0	0	0	4,618	2	Gwasanaeth tân ac amddiffyn sifil
0	0	0	0	0	Llysoedd y crwneriaid
63	0	0	1,803	1	Llysoedd ynadon
96	0	275	39,210	13	Holl y gyfraith, trefn a gwasanaethau diogelu
.	.	1,209	1,209	-	Arall (c)
126,763	72	1,484	741,074	252	Cyfanswm pob gwasanaeth

Ffynhonnell: ffurflenni alldro cyfalaf

ATOTIAD B

B2 Derbyniadau cyfalaf, yn ôl gwasanaeth, 2003-04

	<i>£ miloedd</i>				
Gwasanaeth	Gwerthiant asedau sefydlog	Ad-daliadau blaensymiau a grantiau cyfalaf	Gwerthiant prydesi ac addasiadau eraill	Cyfanswm derbyniadau	Cyfanswm derbyniadau (£ y pen) (a)
Addysg:					
Addysg meithrin a chynradd	599	0	0	599	-
Addysg uwchradd	212	0	0	212	-
Addysg arbennig	865	0	0	865	-
Gwasanaeth ieuentid	0	0	0	0	0
Gwasanaeth addysg eraill ac addysg barhaus	181	0	0	181	-
Holl addysg	1,857	0	0	1,857	1
Gwasanaethau cymdeithasol personol	619	0	0	619	-
Trafnidiaeth:					
Ffyrdd, goleuadau stryd a diogelwch ffyrdd	242	12	0	254	-
Parcio cerbydau	210	0	0	210	-
Trafnidiaeth teithwyr cyhoeddus (bysiau)	180	0	0	180	-
Trafnidiaeth teithwyr cyhoeddus (rheilffyrdd)	0	0	0	0	0
Pontydd ffyrdd â tholl, twnneli a fferiau a chwmnïau trafndiaeth cyhoeddus	0	0	0	0	0
Porthladdoedd a phierau yr awdurdodau lleol	0	0	0	0	0
Meysydd awyr	0	0	0	0	0
Holl trafndiaeth	632	12	0	644	-
Tai:					
Cyfrif refeniw tai (HRA)	169,881	2,826	43	172,749	59
Tai cronfa'r cyngor	835	2,008	0	2,843	1
Arall	.	583	.	583	-
Holl tai	170,716	5,417	43	176,175	60
Llyfrgelloedd, diwydiant a threftadaeth:					
Gwasanaeth llyfrgelloedd	0	0	0	0	0
Amgueddfeydd ac orielau celf	0	0	0	0	0
Gweithgareddau a chyfleusterau celfyddydau	0	0	0	0	0
Holl llyfrgelloedd, diwylliant a threftadaeth	0	0	0	0	0
Amaethyddiaeth a physgodfeydd:					
Traenio ac atal llifogydd	0	0	0	0	0
Amddiffyn yr arfordir	0	0	0	0	0
Amaethyddiaeth a physgodfeydd eraill	1,401	0	0	1,401	-
Holl amaethyddiaeth a physgodfeydd	1,401	0	0	1,401	-
Chwaraeon ac hamdden:					
Cyfleusterau chwaraeon	28,080	0	0	28,080	10
Datblygu chwaraeon	75	29	0	104	-
Holl chwaraeon ac hamdden	28,155	29	0	28,184	10
Gwasanaethau amgylcheddol eraill:					
Tir diffaith adfer	0	0	0	0	0
Parciau a mannau agored	1	0	0	1	-
Casglu gwastraff	0	0	0	0	0
Gwaredu gwastraff	2,505	0	0	2,505	1
Gweinyddu cyffredinol	11,125	0	0	11,125	4
Cynllunio a datblygu	24,688	1	-52	24,637	8
Diogelwch cymunedol	0	0	0	0	0
Iechyd yr amgylchedd	47	0	0	47	-
Amrywiol	1,025	0	0	1,025	-
Diwydiannol a masnachol	1,255	1	0	1,256	-
Gwasanaethau masnachu eraill	23	0	0	23	-
Holl gwasanaethau amgylcheddol eraill	40,669	2	-52	40,619	14
Y gyfraith, trefn a gwasanaethau diogelu:					
Heddlu	1,431	0	0	1,431	-
Gwasanaeth tân ac amddiffyn sifil	529	0	0	529	-
Llysoedd y crwneriaid	0	0	0	0	0
Llysoedd ynadon	230	0	0	230	-
Holl y gyfraith, trefn a gwasanaethau diogelu	2,190	0	0	2,190	1
Arall (b)	.	.	-15	-15	-
Cyfanswm pob gwasanaeth	246,239	5,460	-24	251,674	86

Ffynhonnell: ffurflenni alldro cyfalaf

- (a) Mae cyfrifiadau £ y pen yn defnyddio amcangyfrifon canol-blwyddyn y Cofrestrdydd Cyffredinol o'r boblogaeth ar gyfer 2003.
 (b) Yn cynnwys addasiadau ar gyfer derbynnebau sy'n dyledus mewn blwyddyn ond a dderbynir mewn blwyddyn arall.

C1 Asesiadau gwariant safonol a chymorth y llywodraeth ganolog (a)

	Asesiadau gwario safonol a grant yr heddlu		Cymorth y llywodraeth ganolog (b)	
	£ miloedd	£ y pen (c)	£ miloedd	£ y pen (c)
1990-91	2,070,025	725	1,692,643	593
1991-92 (d)	2,381,446	830	2,184,857	761
1992-93	2,545,816	885	2,288,743	795
1993-94	2,533,801	876	2,277,157	788
1994-95	2,631,939	908	2,345,159	809
1995-96	2,710,472	933	2,393,075	823
1996-97	2,795,394	960	2,459,844	844
1997-98	2,856,251	979	2,502,836	858
1998-99	3,009,501	1,030	2,620,937	897
1999-00	3,165,488	1,082	2,749,103	939
2000-01	3,490,809	1,190	2,871,973	979
2001-02	3,686,844	1,255	3,042,383	1,035
2002-03	3,879,670	1,317	3,184,381	1,081
2003-04	4,140,386	1,426	3,402,620	1,172
2004-05	4,297,628	1,472	3,488,762	1,195
2005-06	4,531,342	1,542	3,658,878	1,245

Ffynhonnell : setliadau refeiwi llywodraeth leol. Mae'r ffigyrau yma yn disgyn tu allan i derfynnau Ystadegau Cenedlaethol

- (a) Yn cynnwys asesiadau gwario safonol a grant yr heddlu. Heb gynnwys grantiau penodol heblaw'r heddlu.
- (b) Yn cynnwys grant cynnal refeiwi, trethi annomestig wedi'u hailddosbarthu, cynllun lleihau'r dreth gyngor a grant trosiannol ar gyfer cyngorau sir neu bwrdeistref sirol. Yn cynnwys grant cynnal refeiwi, ardrethi annomestig wedi'u hailddosbarthu, grant heddlu a grant ffrwyno'r heddlu yn achos awdurdodau heddlu. Heb gynnwys grantiau penodol heblaw'r heddlu. Gweler hefyd droednodyn (d).
- (c) Mae amcangyfrifon canol-blwyddyn y Cofrestrwydd Cyffredinol o'r boblogaeth 1988 am 1990-91, 1989 am 1991-92, 1990 am 1992-93, 1991 am 1993-94, 1992 am 1994-95, 1993 am 1995-96, 1994 am 1996-97, 1995 am 1997-98, 1996 am 1998-99, 1997 am 1999-2000, 1998 am 2000-01, 1999 am 2001-02, 2000 am 2002-03, 2001 am 2003-04, 2002 am 2004-05 a 2003 am 2005-06. Mae'r ffigurau'n gydradd â'r rhai a ddefnyddir i gyfrifo asesiadau gwario safonol a chymorth y llywodraeth ganolog ym mhob blwyddyn y setliad.
- (d) Ym 1991-92, rhoddwyd grant o £140 y trethdalwr i'r awdurdodau lleol yng Nghymru i leihau biliau'r dreth gyngor. Cynhwysir hyn yn ffigur cymorth llywodraeth ganolog.

C2 Aseidiadau gwario safonol a ffynhonnell cymorth y llywodraeth ganolog, yn ôl awdurdod, 2005-06

£ miloedd

	Aseidiadau gwario safonol a grant yr heddlu	Cymorth y llywodraeth ganolog			
		Cyfanswm	Yn cynnwys:		Cyfran o ardrethi annomestig wedi'u hailddosbarthu
			Grant cynnal refereniw	Grant yr heddlu	
Cyngorau sir/bwrdeistref sirol:					
Ynys Môn	99,392	78,904	64,693	.	14,210
Gwynedd	174,038	140,740	116,293	.	24,447
Conwy	155,870	121,584	98,242	.	23,342
Sir Ddinbych	137,000	110,430	90,790	.	19,639
Sir y Flint	194,015	151,613	120,993	.	30,620
Wrecsam	164,880	131,579	104,732	.	26,846
Powys	190,100	150,021	123,107	.	26,914
Ceredigion	104,335	83,237	66,579	.	16,659
Sir Benfro	169,431	133,961	110,112	.	23,849
Sir Gaerfyrddin	249,575	202,302	165,848	.	36,454
Abertawe	305,907	245,011	198,016	.	46,995
Castell-nedd Port Talbot	193,846	160,673	132,672	.	28,001
Pen-y-bont ar Ogwr	175,464	141,313	114,713	.	26,600
Bro Morgannwg	159,339	120,094	95,593	.	24,501
Caerdydd	404,234	314,926	249,881	.	65,045
Rhondda Cynon Taf	334,809	283,369	236,167	.	47,203
Merthyr Tudful	82,571	70,311	59,112	.	11,199
Caerffili	244,961	204,266	169,949	.	34,318
Blaenau Gwent	103,800	89,188	75,195	.	13,993
Tor-faen	130,928	108,457	90,084	.	18,373
Sir Fynwy	109,828	79,389	61,644	.	17,745
Casnewydd	195,344	158,395	130,548	.	27,847
Pob cyngor sir/bwrdeistref sirol	4,079,669	3,279,762	2,674,962	.	604,800
Awdurdodau heddlu:					
Dyfed Powys	65,188	52,237	7,083	33,612	11,542
Gwent	87,141	74,090	16,967	44,648	12,475
Gogledd Cymru	95,675	78,251	13,321	49,474	15,456
De Cymru	203,669	174,538	39,357	107,453	27,727
Pob awdurdod heddlu	451,673	379,116	76,728	235,188	67,200
Cymru	4,531,342	3,658,878	2,751,690	235,188	672,000

Ffynhonnell : setliad refereniw llywodraeth leol, 2005-06. Mae'r ffigyrau yma yn disgyn tu allan i derfynnau Ystadegau Cenedlaethol

C3 Asesiadau gwario safonol a ffynhonnell cymorth y llywodraeth ganolog y pen o'r boblogaeth, yn ôl awdurdod, 2005-06 (a)

£ y pen

	Asesiadau gwario safonol a grant yr heddlu	Cymorth y llywodraeth ganolog			
		Cyfanswm	Yn cynnwys:		
			Grant cynnal referniw	Grant yr heddlu	Cyfran o ardrethi annomestig wedi'u hailddosbarthu
Cynghorau sir/bwrdeistref sirol:					
Ynys Môn	1,454	1,154	946	.	208
Gwynedd	1,481	1,198	990	.	208
Conwy	1,406	1,097	886	.	211
Sir Ddinbych	1,444	1,164	957	.	207
Sir y Flint	1,298	1,015	810	.	205
Wrecsam	1,271	1,014	807	.	207
Powys	1,471	1,161	952	.	208
Ceredigion	1,352	1,079	863	.	216
Sir Benfro	1,457	1,152	947	.	205
Sir Gaerfyrddin	1,418	1,150	943	.	207
Abertawe	1,362	1,091	881	.	209
Castell-nedd Port Talbot	1,432	1,187	980	.	207
Pen-y-bont ar Ogwr	1,351	1,088	883	.	205
Bro Morgannwg	1,314	991	788	.	202
Caerdydd	1,283	999	793	.	206
Rhondda Cynon Taf	1,446	1,224	1,020	.	204
Merthyr Tudful	1,491	1,269	1,067	.	202
Caerffili	1,439	1,200	998	.	202
Blaenau Gwent	1,506	1,294	1,091	.	203
Tor-faen	1,444	1,196	994	.	203
Sir Fynwy	1,274	921	715	.	206
Casnewydd	1,402	1,137	937	.	200
Pob cyngor sir/bwrdeistref sirol	1,389	1,116	910	.	206
Awdurdodau heddlu:					
Dyfed Powys	131	105	14	67	23
Gwent	157	133	31	80	22
Gogledd Cymru	143	117	20	74	23
De Cymru	168	144	32	89	23
Pob awdurdod heddlu	154	129	26	80	23
Cymru	1,542	1,245	937	80	229

Ffynhonnell : setliad referniw llywodraeth leol, 2005-06. Mae'r ffigyrau yma yn disgyn tu allan i derfynnau Ystadegau Cenedlaethol.

(a) Yn seiliedig ar amcangyfrifon canol-blwyddyn y Cofrestrdydd Cyffredinol o'r boblogaeth ar gyfer 2003.

C4 Grantiau penodol, yn ôl gwasanaeth

	<i>£ miloedd</i>			
	2002-03	2003-04	2004-05 (a)	2005-06 (a)
Grantiau cyfredol:				
Addysg (b)	241,001	277,181	261,971	255,455
Gwasanaethau cymdeithasol personol	124,425	180,756	202,291	203,742
Gwasanaethau'r Swyddfa Gartref a diogelu	51,096	68,580	54,247	37,336
Gweinyddu budd-dâl tai/y dreth gyngor	11,766	22,943	20,775	21,775
Tai cronfa'r cyngor (c)	274,770	320,947	328,953	361,694
Ad-daliadau rhent a rhoddir I denantiaid HRA (d)	.	.	265,972	274,252
Rheoli gwastraff	15,378	19,049	39,150	45,026
Grantiau Parciau Cenedlaethol	8,529	9,652	10,229	10,619
Arall	49,383	103,545	103,142	134,182
Pob grantiau cyfredol	776,348	1,002,652	1,286,729	1,344,080
Grantiau ariannu cyfalaf:				
Addysg	.	0	0	12,464
Gwasanaethau'r Swyddfa Gartref a diogelu	1,009	872	493	478
Tai cronfa'r cyngor	1,194	1,164	717	699
Rheoli gwastraff	.	.	0	8,580
Arall	244	0	0	0
Pob grantiau ariannu cyfalaf	2,447	2,036	1,210	22,221
Pob grant penodol	778,795	1,004,688	1,287,938	1,366,301
Eitem memorandwm:				
Grant budd-dâl y dreth gyngor	120,036	133,039	143,286	156,595

Ffynhonnell: ffurflenni refeniw alldro a ffurflenni cyllideb refeniw

- (a) Cyllidebau.
 (b) Yn cynnwys grant Cyngor Cenedlaethol ELWa.
 (c) Mae'r grantiau presennol yn cynnwys lwfansau rhent gorfodol.
 (d) Newydd yn 2004-05. Rhan o'r cyfrif refeniw tai yn flaenorol. Wedi'i ariannu 100% gan yr Adran dros Gwaith a Phensiynau.

C5 Grant y parciau cenedlaethol (a)

	<i>£ miloedd</i>			
	Bannau Brycheiniog	Arfordir Sir Benfro	Eryri	Cymru
1990-91	905	1,086	1,438	3,430
1991-92	1,007	1,208	1,599	3,814
1992-93	1,399	1,643	2,151	5,193
1993-94	1,443	1,694	2,217	5,354
1994-95	1,476	1,733	2,268	5,477
1995-96	1,484	1,742	2,380	5,606
1996-97	1,672	1,823	2,339	5,834
1997-98	1,672	1,823	2,339	5,834
1998-99	1,722	1,878	2,434	6,034
1999-00	1,722	1,878	2,434	6,034
2000-01	1,865	2,033	2,636	6,534
2001-02	2,140	2,257	2,926	7,324
2002-03	2,458	2,665	3,406	8,529
2003-04	2,897	2,971	3,784	9,652
2004-05 (b)	3,175	2,992	4,062	10,229
2005-06 (b)	3,117	3,290	4,212	10,619

Ffynhonnell: Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ffurflenni refeniw alldro a ffurflenni cyllideb refeniw

- (a) Cyn 1996-97 rhoddwyd grant y parciau cenedlaethol i awdurdodau parciau cenedlaethol yn anuniongyrchol, drwy'r cyngorau sir perthnasol, ar ffurf grant atodol. Heb gynnwys dyraniadau grant cyfalaf. Y grantiau hyn yw mwyafrif o'r arian refeniw ar gyfer y parciau cenedlaethol. Darperir cyfran arall gan gyfraniadau oddi wrth yr awdurdodau lleol a leolir o fewn ffiniau'r parciau cenedlaethol. Ffynhonnell y ffigurau hyd at 1999-2000 yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Ffynhonnell ffigurau 2000-01 ac ymlaen yw ffurflenni alldro refeniw a ffurflenni cyllideb.
 (b) Cyllidebau.

Ardrethi annomestig (NDR): Ardrethi a delir i *awdurdodau bilio* gan bob busnes yn ardal yr awdurdod hwnnw. Ers 1 Ebrill 1990, mae'r rhain wedi'u seilio ar gyfradd fusnes unffurf ledled Cymru a elwir y punt-dâl cenedlaethol sengl a bennwyd gan y llywodraeth ganolog. Cymhwysir y punt-dâl cenedlaethol hwn i *werth ardrethol* pob eiddo annomestig i sefydlu'r bil ar gyfer yr eiddo hwnnw. Mae *awdurdodau bilio* yn talu'r ardrethi annomestig a gesglir i mewn i gronfa ganolog a rennir yn gyntaf rhwng cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol ac awdurdodau heddlu ac a ailddosberthir wedyn rhwng pob awdurdod yn ôl cyfrannau'r boblogaeth oedolion. Disodlodd hyn y system flaenorol lle byddai'r *awdurdodau bilio* yn pennu eu hardrethi eu hunain ac yn cadw'r ardrethi sy'n ymwneud â'r holl fusnesau yn eu hardal.

Arian cyfalaf cyffredinol (GCF): Y cyfanswm sydd ar gael ar gyfer cynghorau sir neu gynghorau bwrdeistref sirol Cymru ar gyfer ariannu *gwariant cyfalaf cyffredinol*. Rhoddir y dyraniadau yn flynyddol i bob *awdurdod lleol* cyn dechrau pob blwyddyn ariannol, gan gwmpasu'r mwyafrif o'r gwasanaethau sylfaenol a wneir gan yr awdurdodau ac a gyfrifir gan ddefnyddio fformwlâu dosbarthu cytûn. Ar gyfer y blynyddoedd ariannol hyd at a chan gynnwys 1999-2000, yr oedd GCF yn cynnwys yn llwyr *cymeradwyaethau credyd sylfaenol*, ond ar gyfer 2000-01 ymlaen, mae GCF yn rhannol yn *gymeradwyaethau credyd sylfaenol* ac yn rhannol *grant cyfalaf cyffredinol*.

Asesiadau gwario safonol (SSAs): Asesiadau a benderfynir yn ganolog o angen pob awdurdod i wario ar wasanaethau refeniw, ar sail *cyfanswm gwariant safonol*. Fe'u cyfrifir ychydig cyn y flwyddyn y maent yn cyfeirio ati gan ddefnyddio egwyddorion a sefydlwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan gwmpasu nodweddion demograffig, ffisegol a chymdeithasol pob ardal, fel y'u hadlewyrchir gan amrediad o ddangosyddion.

Mae SSAs yn cynnwys elfen i gwmpasu'r angen i wario ar elfen *taliadau cyfalaf gwariant refeniw*, ac elfen i gwmpasu'r angen i wario ar yr elfen *ariannu dyled o wariant refeniw*. Seilir y dosbarthiad o'r elfen *gyfredol* rhwng yr awdurdodau lleol ar y dosbarthiad o wahanol ddangosyddion o angen, megis niferoedd disgyblion, poblogaeth a mesurau o amddifadedd a gwledigrwydd. Seilir y dosbarthiad o'r elfen *taliadau cyfalaf* rhwng yr awdurdodau lleol ar y ffigur terfyn uchaf credyd diweddaraf sydd ar gael ar gyfer pob awdurdod (sef yn y bôn lefel y ddyled heb ei thalu) ynghyd ag amcangyfrifon o sut y bydd hyn yn newid yn y flwyddyn y mae'r SSAs yn cyfeirio ati.

Awdurdod lleol: Mae yna lawer o ddiffiniadau o awdurdodau lleol, sydd wedi'u dyfeisio i fodloni gofynion y Deddfau Seneddol y cawsant eu sefydlu o danynt. Yn y cyhoeddiad hwn, mae i'r term ystyr eithriadol o eang sy'n cynnwys pob corff lleol, heblaw cwmnïau sy'n masnachu i gael elw, ac y mae neu yr oedd ganddynt bŵer i godi'r *dreth gyngor*, y *tâl cymunedol*, ardrethi, ardollau neu daliadau neu i'w gwneud yn ofynnol iddynt gael eu codi. Yng Nghymru, mae'r dyletswyddau hyn yn cael eu cyflawni'n bennaf gan gynghorau sir neu gynghorau bwrdeistref sirol (y cynghorau sir a'r cynghorau dosbarth cyn 1 Ebrill 1996) a chan awdurdodau heddlu ac awdurdodau tân. Er hynny, mae gwybodaeth am gyrff praeseptio eraill megis cynghorau cymuned yn cael ei chynnwys lle bo'n berthnasol.

Awdurdod praeseptio: *Awdurdod lleol* sy'n ceisio swm, a elwir praesept, oddi wrth *awdurdod bilio* i ariannu ei wariant. Yng Nghymru yr awdurdodau praeseptio yw awdurdodau'r heddlu a chynghorau cymuned. Mae awdurdodau'r heddlu yn praeseptio am symiau i ariannu'r gyfran honno o'u gwariant na chynhwysir mohoni gan gymorth y llywodraeth ganolog, gan gynnwys y *grant cynnal refeniw*, *grant yr heddlu* ac *ardrethi annomestig* wedi'u hailddosbarthu ac incwm arall, tra mae cynghorau cymuned yn praeseptio am symiau i gynnwys swm llawn ei gwariant.

Awdurdodau bilio: *Awdurdodau lleol* a awdurdodir i bennu taliadau lleol a rhoi biliau am y *dreth gyngor* a'r *ardrethi annomestig* ar ei ran ei hun, ac awdurdodau eraill yn yr ardal (a elwir *awdurdodau praeseptio*). Yng Nghymru, yr awdurdodau bilio yw'r cynghorau sir neu'r cynghorau bwrdeistref sirol.

Budd-dâl Tai: Fe'i dyfernir gan yr awdurdodau lleol ar sail prawf moddion i roi cymorth gyda rhent ac mae'n daladwy mewn perthynas â llety preswyl. Dyma'r ddau gategori o Fudd-dâl Tai:

- ad-daliadau rhent sy'n rhoi cymorth gyda'r rhent a delir gan denantiaid *awdurdod lleol*;
- lwfansau rhent sy'n rhoi cymorth gyda'r rhent a delir gan bobl nad ydynt yn denantiaid *awdurdod lleol*.

Mae'r dull asesu yn amrywio rhwng achosion ardystiedig ac achosion safonol. Achosion ardystiedig yw'r rhai lle mae'r hawliwr yn cael cymhorthdal incwm. Fel rheol mae budd-dâl tai ardystiedig yn cynnwys 100 y cant o rent yr hawliwr llai didyniadau os oes yna bobl nad ydynt yn ddibynyddion (e.e. lletywyr, plant sy'n oedolion) yn y cartref, os yw'r rhent yn cynnwys amwynderau megis gwres ac o dan rai amgylchiadau eraill. Fel rheol, mae budd-dâl tai safonol yn cynnwys llai na 100 y cant o'r rhent. Mae swm y budd-dâl yn dibynnu'n bennaf ar lefel y rhent, lefel incwm yr hawliwr a maint yr aelwyd.

Budd-dâl y dreth gyngor: Mae'n helpu pobl ar incwm isel i dalu eu rhwymedigaeth *treth gyngor*, drwy ad-daliad rhannol neu lawn o dan ddarpariaethau'r cynllun budd-dâl. Gweinyddir y cynllun gan yr awdurdodau lleol ac mae lefel yr ad-daliad yn dibynnu ar amgylchiadau personol a lefel y *dreth gyngor* sydd i'w thalu. Disodlodd budd-dâl y dreth gyngor fudd-dâl y *tâl cymunedol* ar 1 Ebrill 1993 a ddisodlodd ad-daliadau ardrethi ar 1 Ebrill 1990.

Cronfa Adfywio Leol: Disodlodd hon yr hen Her Gyfalaf ar 1 Ebrill 2000, a ddisodlodd y Cynllun Datblygu Strategol ar 1 Ebrill 1997, a chyn hynny Prosiectau o Bwysigrwydd Rhanbarthol neu Genedlaethol Arbennig/Prosiectau Arbennig, y Rhaglen Drefol a'r Fenter Wledig. Mae'r Gronfa Adfywio Leol yn cefnogi prosiectau sy'n hybu datblygiad economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol ac sydd o fudd i ardaloedd lle ceir angen cymdeithasol. Cymeradwyir prosiectau yn flynyddol gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a rhoddir cymorth trwy gyfrwng grant a/neu *gymeradwyaeth credyd atodol*.

Cronfa gyngor (yr enw arni oedd y gronfa gyffredinol rhwng 1990-91 a 1995-96) - mae'n ofynnol i bob cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol gadw cronfa gyngor. Ac eithrio taliadau a wneir i gronfa ymddiriedolaeth neu oddi yno, rhaid talu pob swm a dderbynnir i mewn i'r gronfa gyngor a rhaid gwneud pob taliad, gan gynnwys *praeseptau*, o'r gronfa gyngor. Yn y cyhoeddiad hwn, mae'r term cronfa gyngor yn cyfeirio yn fwy penodol at gyfrif refeniw'r gronfa gyngor nad yw'n cynnwys y *cyfrif refeniw tai* a *gwasanaethau masnachu*.

Cyfanswm gwariant safonol (TSS): Swm y *gwariant refeniw* y mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn credu ei bod yn briodol i holl awdurdodau Cymru ei dynnu wrth ddarparu gwasanaethau ac ariannu gwariant. Mae'n cynnwys gwariant a ariennir gan *grantiau penodol* y *llywodraeth* y tu allan i *gyllid allanol agregeidig*, sef yn fras y lefel briodol o wariant ar swyddogaethau'r *awdurdodau lleol* a ddaw o dan gyfrifoldeb Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Cyfredol: Yr elfen **gyfredol** o *wariant refeniw* yw cost rhedeg gwasanaethau'r *awdurdodau lleol* yn y flwyddyn ariannol. Mae'r rhain yn cynnwys costau staffio, gwres, goleuadau a glanhau, ynghyd â gwariant ar nwyddau a gwasanaethau a ddefnyddir yn ystod y flwyddyn. Gwrthbwysir y gwariant hwn gan incwm o werthiannau, ffioedd a thaliadau ac incwm arall o ffynonellau lleol, gan roi *gwariant cyfredol net*, y gellir ei ddiffinio hefyd fel gwariant ar weithwyr cyflogedig a chostau rhedeg, llai gwerthiannau, ffioedd, taliadau, ad-daliadau mewnlol ac incwm arall heb fod yn grant (megis derbyniadau o awdurdodau eraill). Mae *gwariant cyfredol net* yn cynnwys y gwariant hwnnw a ariennir gan *grantiau penodol y llywodraeth*.

Mae'r tablau yn Atodiad A yn rhoi dadansoddiad manwl o wariant cyfredol. Wrth ystyried y gwariant yn unig ac nid yr incwm, gellir cyfrif costau a gysylltir â gwasanaethau canolog megis gweinyddiaeth cyffredinol a rhai gwasanaethau sydd mewn 'pŵl' ddwywaith, a hynny am fod cyfran o'r gwariant ar gyfer y gwasanaethau canolog hyn yn cael ei ailgodi ar wasanaethau eraill a'i gofnodi yn eu herbyn. Er y cymerir credyd i mewn i'r gwasanaethau canolog fel incwm o'r gwasanaethau eraill hyn, mae'r gwasanaethau canolog a'r gwasanaethau eraill yn dangos y gwariant perthnasol fel 'costau rhedeg'. Cyfrifir gwariant am yr eitemau wedi'u hailgodi hyn ddwywaith, er nad yw cyfrif dwbl yn digwydd yn achos *gwariant cyfredol net*, gan fod un rhan yn cael ei gwrthbwysu fel incwm ac yn cael ei diddymu.

Cyfrif refeniw tai (HRA): Cyfrif awdurdod lleol sy'n dangos yr incwm a'r gwariant *cyfredol* ar wasanaethau tai mewn perthynas â'i stoc dai ei hun. Mae'r cyfrif yn wahanol i *gronfa'r cyngor* a'r *cyfrifon masnachu* ac yn cael ei ariannu'n bennaf drwy renti a chymhorthdal gan y llywodraeth sy'n benodol i'r cyfrif hwn. Yng Nghymru, y cynghorau sir neu'r cynghorau bwrdeistref sirol yw'r awdurdodau galluogi, mewn perthynas â thai cymdeithasol, er bod cymdeithasau tai bellach yn ddarparwyr sylweddol hefyd. Mae rhai gwasanaethau tai ychwanegol (tai cronfa'r cyngor) yn ymddangos hefyd yng nghyfrifon y *gronfa gyngor*; mae'r rhain yn cynnwys grantiau gwella a benthyciadau ar gyfer prynu ac adnewyddu tai o dan Ddeddfau Caffael Anheddau Bach a darpariaeth ar gyfer pobl ddigartref.

Cyfrifon archwiliedig: Mewn rhai achosion mae'r ffigurau alldro a welir yn y tablau wedi'u seilio ar amcangyfrifon gorau awdurdod a oedd ar gael pan lenwyd y ffurflenni alldro a gallant fod yn wahanol i'r ffigurau terfynol a gyhoeddir yng nghyfrifon archwiliedig yr awdurdod.

Cyllid allanol agregedig (AEF): Swm y *grant cynnal refeniw*, swm dosbarthadwy *ardrethi annomestig* a *grantiau penodol y llywodraeth* a roddir er mwyn cynnal yr elfen bresennol o *wariant cyfredol*.

Cymeradwyaeth credyd atodol (SCA): *Cymeradwyaeth credyd* sy'n gynllun neu'n wasanaeth penodol ac y gellir ei roi cyn, yn ystod neu hyd at y chwe mis ar ôl y flwyddyn ariannol y tynnir y gwariant ynddi.

Cymeradwyaethau credyd: Awdurdodiad a roddir gan y llywodraeth ganolog i ddefnyddio credyd, hyd at derfyn y gymeradwyaeth, i ariannu *gwariant cyfalaf* neu ymrwymadau. Maent yn caniatáu defnyddio nid yn unig benthyciadau ond hefyd *trefniadau credyd*. Gellir rhoi cymeradwyaethau credyd fel *cymeradwyaeth credyd sylfaenol*, sy'n ymwneud â *gwariant cyfalaf cyffredinol* cyn dechrau'r flwyddyn ariannol y mae'n ymwneud â hi, neu fel *cymeradwyaethau credyd atodol*, sy'n ymwneud â rhaglen neu brosiect penodol, ac y gellir eu rhoi ar unrhyw adeg hyd at 6 mis ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol y daeth i rym ynddi.

Cymeradwyaethau credyd sylfaenol (BCAs): Fe'u rhoddir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru i gynghorau sir neu gynghorau bwrdeistref sirol Cymru fel cymeradwyaethau i fenthycu neu i ddefnyddio *trefniadau credyd* i ariannu *gwariant cyfalaf cyffredinol*. Rhoddir BCAs i awdurdodau tân Cymru gan yr Adran dros Drafnidiaeth Llywodraeth Leol ar Rhanbaarthau. Ar gyfer y blynyddoedd ariannol hyd at a chan gynnwys 1999-2000, yr oedd *arian cyfalaf cyffredinol* yn cynnwys BCAs yn llwyr. Ar gyfer 2000-01 ymlaen, mae BCAs yn is-set o *arian cyfalaf cyffredinol*.

Cynllun lleihau'r dreth gyngor (CTRS): Grant a dalwyd i rai awdurdodau lleol rhwng 1996-97 a 2000-01 i liniaru effaith codiadau gormodol blwyddyn-ar-flwyddyn yn y *dreth gyngor* o ganlyniad i newidiadau yn y dosbarthiad rhwng awdurdodau unigol o *asesiadau gwario safonol* a thrwy hynny y *grant cynnal refeniw*. Fe'i hariennir naill ai fel ailgylchiad o gyfanswm y *grant cynnal refeniw*, neu fel *cyllid allanol agrededig*, ac fe gafodd ei ddisodli gan grant trosiannol yn 2001-02.

Derbyniad cyfalaf tybiannol: Derbyn y cyfan neu ran o swm nad yw mewn arian, a fyddai wedi bod yn *dderbyniad cyfalaf* pe bai'r swm wedi'i dalu mewn arian. Mae'r un rheolau yn gymwys i dderbyniadau cyfalaf tybiannol ag i *dderbyniadau cyfalaf*, h.y. rhaid neilltuo canran benodedig o'r derbyniad fel darpariaeth ar gyfer *rhwymedigaethau credyd*.

Derbyniadau cyfalaf: Yn codi wrth waredu asedau sefydlog ac ad-dalu grantiau a blaensymiau cyfalaf neu wrth realeiddio buddsoddiadau, heblaw buddsoddiadau cymeradwy (*gweler derbyniadau cyfalaf tybiannol*).

Derbyniadau cyfalaf defnyddiadwy: Gweddill *derbyniadau cyfalaf* ar ôl neilltuo'r rhan neilltuedig (fel y'i penderfynir o dan Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989) a thynnu costau gweinyddol gwaredu tai a'r derbyniadau hynny sy'n daladwy i'r Trysorlys. Gellir defnyddio'r derbyniadau hyn i dalu gwariant a dynnir at ddibenion cyfalaf neu fel darpariaeth i dalu *rhwymedigaethau credyd*.

Gofyniad ariannu cyfalaf Mesurydd cynghorus sydd wedi'i ddiffinio yng nghôd cynghorus CIPFA, yn gyffredinol mae'n cynrychioli yr angen gwaelodol i fenthycu ar gyfer gwariant cyfalaf.

Y **gofyniad cyllideb:** *Gwariant refeniw gros* llai'r hyn a ariennir gan holl *grantiau penodol* y *llywodraeth* heblaw grantiau'r heddlu a'r gwariant hwnnw a ariennir o gronfeydd *yr awdurdodau lleol*. Swm y gwariant ydyw a gefnogir gan y *dreth gyngor* a'r *tâl cymunedol* a chymorth cyffredinol oddi wrth y *llywodraeth ganolog*, sef y *grant cynnal refeniw*, *grant yr heddlu*, *ardrethi annomestig* wedi'i hailddosbarthu, ac unrhyw ryddhad grant ar gyfer y *dreth gyngor* neu'r *tâl cymunedol*.

Grant cyfalaf cyffredinol: O 2000-01 ymlaen, mae'n elfen o *arian cyfalaf cyffredinol*. Arian grant uniongyrchol ydyw tuag at ariannu *gwariant cyfalaf cyffredinol*.

Grant cynnal refeniw (RSG): Fe'i telir i'r awdurdodau lleol gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru fel un o brif elfennau cymorth ar gyfer *gwariant refeniw*, fel sy'n ofynnol yn ôl adran 78(1) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988. Er mwyn cyrraedd y swm agregedig o RSG, mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn penderfynu ar lefel o *gyfanswm gwariant safonol* ac wedyn yn pennu lefel *cyllid allanol agregedig* (AEF). RSG yw'r eitem cydbwyso o fewn AEF ar ôl i'r swm dosbarthadwy o *ardrethi annomestig* a lefelau rhai *grantiau penodol y llywodraeth* tuag at wariant refeniw gael eu penderfynu.

Diben system y grant cynnal refeniw yw galluogi'r awdurdodau i ddarparu lefel gyffredin o wasanaeth sy'n gyson â'r ffigur agregedig hwn o *gyfanswm gwariant safonol*. Ei nod yw gwneud iawn am wahaniaethau o ran ar ba lefel y mae angen i'r awdurdodau wario ac ar ba lefel y gallant godi'r *dreth gyngor* er mwyn darparu lefel gyffredin o wasanaeth. Bodlonir yr amcan hwn drwy gyfrif y grant cynnal refeniw am bob awdurdod fel y gwahaniaeth rhwng ei *asesiad gwariant safonol* a swm ei incwm *ardrethi annomestig* wedi'u hailddosbarthu a'r *tâl cymunedol / y dreth gyngor* ar gyfer incwm gwario safonol.

Grant trosiannol: Grant a delir i rai awdurdodau lleol i liniaru effaith codiadau gormodol blwyddyn-ar-flwyddyn yn y dreth gyngor o ganlyniad i newidiadau yn y dosbarthiad rhwng awdurdodau unigol o asesiadau gwario safonol a thrwy hynny y grant cynnal refeniw. Fe'i ariennir fel cyfanswm cyllid allanol ac fe ddisodlodd cynllun lleihau'r dreth gyngor ym 2001-02.

Grant y tâl cymunedol: Grant canolog unigryw a dalwyd i'r awdurdodau lleol ym 1991-92 i leihau £140 ar fil pob trethdalwr personol. Yn y blynyddoedd olynol cynhwyswyd y swm o fewn cyfanswm y *grant cynnal refeniw*.

Grant yr heddlu: Fe'i telir i awdurdodau'r heddlu gan y Swyddfa Gartref fel un o brif elfennau cymorth ar gyfer *gwariant refeniw* yr awdurdod heddlu. Mae'n rhan o'r *gofyniad cyllideb* ac ni chynhwysir mohono felly o fewn *grantiau penodol y llywodraeth*. Cyfrifir grant yr heddlu gan ddefnyddio'r un fformwla ag a ddefnyddir ar gyfer cyfrif *asesiadau gwario safonol* awdurdodau'r heddlu.

Gwariant cyfalaf: Buddsoddi yng ngwasanaethau'r *awdurdodau lleol*, yn bennaf darparu, caffael a gwella asedau penodedig megis tir, adeiladau, cerbydau a pheiriannau ynghyd â thalu grantiau a blaensymiau i rai cyrff, megis grantiau adnewyddu cartrefi a wneir i berchnogion tai preifat. Ariennir gwariant cyfalaf yn rhannol drwy fenthyca; telir yr ad-daliadau blynyddol o brifswm a llog a geir o ganlyniad o *wariant refeniw*. Ar wahân i'r taliadau hyn am fenthyciadau, mae gan wariant cyfalaf hefyd oblygiadau ar gyfer yr elfen *gyfredol* o *wariant refeniw*, gan fod asedau newydd yn cynhyrchu costau refeniw newydd, megis staffio, gwres a chostau glanhau.

Gwariant cyfalaf sy'n cael ei godi ar y cyfrif refeniw (CERA): Unrhyw *wariant cyfalaf* a delir o gyfrif refeniw neu o gronfeydd refeniw wrth gefn. Ymhlith pethau eraill mae'n cynnwys: cyfraniadau refeniw at wariant cyfalaf; *gwariant cyfalaf* sy'n cael ei dalu o gronfeydd refeniw wrth gefn; a symiau sy'n cael eu neilltuo o gyfrif refeniw fel swm i dalu am gredyd ar gyfer *trefniadau credyd* neu mewn perthynas â *derbyniadau cyfalaf tybiannol*.

Gwariant cyfredol net: gweler elfen *gyfredol gwariant refeniw*.

Gwariant refeniw: Gwariant y mae angen ei ariannu o refeniw yn y flwyddyn gyfredol. Mae hyn yn cynnwys cost barhaus cynnal gwasanaethau lleol, gan gynnwys cyflogau gweithwyr cyflogedig a phrynu nwyddau a gwasanaethau (gweler elfen *gyfredol gwariant refeniw*) a chost ariannu *gwariant cyfalaf* (gweler elfen *taliadau cyfalaf gwariant refeniw*). Mae gan wariant refeniw hefyd ystyr benodol wrth ystyried cyfanswm gwariant refeniw, sef *gwariant refeniw gros heb gynnwys* yr hyn a ariennir gan *grantiau penodol y llywodraeth* y tu allan i *gyllid allanol agrededig*. Mae hyn yn hepgor gwariant ar wasanaethau a weinyddir gan yr awdurdodau lleol yn bennaf ar ran y llywodraeth ganolog, er enghraifft dyfarniadau gorfodol i fyfyrwyr, fel bod y mesur yn adlewyrchiad gwell o gyfanswm gwariant yr awdurdodau lleol. Gelwir gwariant refeniw a ddiffinnir fel hyn yn aml yn wariant ar sail *cyfanswm gwariant safonol*.

Gwariant refeniw gros: Elfenn gyfredol net (gweler *cyfredol*) o *wariant refeniw*, ynghyd ag elfen *taliadau cyfalaf wariant refeniw*. I bob pwrpas yr holl wariant refeniw ydyw, gan gynnwys yr hyn a ariennir gan incwm o werthiannau, ffioedd a thaliadau a ffynonellau eraill heb fod yn ffynonellau grant, ond gan gynnwys yr hyn a ariennir gan *grantiau penodol y llywodraeth*, a hynny o fewn *cyllid allanol agrededig* a'r tu allan iddo.

Gwariant refeniw net: Defnyddir gwariant net fel rheol yng nghyd-destun gwariant refeniw. Gwariant refeniw net yw'r holl wariant refeniw heb gynnwys yr hyn a ariennir gan incwm o werthiannau, ffioedd, a thaliadau a ffynonellau eraill heb fod yn grantiau, a'r hyn a ariennir gan *grantiau penodol y llywodraeth*, a hynny o fewn *cyllid allanol agrededig* a'r tu allan iddo. Fel arall swm y gwariant ydyw a gefnogir gan y *dreth gyngor* a chymorth cyffredinol gan y llywodraeth ganolog, plws (neu lai) unrhyw neilltuadau o gronfeydd ariannol (neu iddynt) .

Gwasanaethau masnachu: Gwasanaethau'r *awdurdodau lleol* y bwriedir eu hariannu yn bennaf o daliadau a godir ar ddefnyddwyr y gwasanaeth. Gall y defnyddwyr hyn fod yn wasanaethau eraill yr *awdurdodau lleol* neu beidio. Cofnodir gwariant ac incwm ar gyfer y gwasanaethau hyn mewn cyfrifon masnachu ar wahân, sydd, at ei gilydd, yn cydbwysu i raddau. Caiff unrhyw wargedau neu ddiffygion ar y cyfrifon masnachu eu trosglwyddo i'r *gronfa gyngor*, ac maent yn rhan o gyfanswm *gwariant refeniw*. Ni roddir manylion gwasanaethau masnachu yn y cyhoeddiad hwn, ond gellir eu cael oddi wrth y cyfeiriad ar flaen y cyhoeddiad hwn.

Gwasanaethau'r gronfa gyngor: Gwasanaethau'r *awdurdod lleol* sy'n cael eu hariannu'n bennaf drwy drethi lleol a grantiau ac sy'n dibynnu i raddau cyfyngedig yn unig ar incwm o ffioedd, taliadau a gwerthiannau. Maent yn cynnwys addysg, yr heddlu, tân, priffyrdd, gwasanaethau cymdeithasol personol a gwasanaethau amgylcheddol.

Gwerth ardrethol eiddo: Fe'i cyfrifir ar sail ei werth rhentu tybiannol gan Asiantaeth y Swyddfa Brisio, sef y rhent a fyddai'n perthyn i'r eiddo pe bai'n cael ei gynnig ar y farchnad agored. O dan y drefn ar gyfer *ardrethi annomestig* cynhelir prisiadau bob pum mlynedd a daeth hynny i rym yn Ebrill 1990, Ebrill 1995, Ebrill 2000 ac Ebrill 2005.

Prisiau alldro (neu arian parod): Gwariant a ddangosir yn ôl prisiau alldro sy'n adlewyrchu lefel y prisiau a oedd mewn grym pan dynnwyd y gwariant, h.y. gwariant gwirioneddol o fewn cyfnod amser penodedig. Bydd cymariaethau gwariant dros amser yn ôl prisiau alldro yn dangos codiadau oherwydd chwyddiant yn ogystal â newidiadau go iawn yn lefelau gwasanaethau, ayb.

Y Rhestr ardrethu ganolog: Yn dangos *gwerthoedd ardrethol* (agregedig) dosbarthiadau penodol o hereditament annomestig a feddiennir gan bersonau dynodedig. Mae'r rhestr yn dangos: hereditamentau (ac eithrio pwerdai nad ydynt wedi'u meddiannu gan National Power, Nuclear Electric a Powergen; a dociau a phorthladdoedd mawr) a thelathrebiadau, rhai piblinellau traws gwlad a rhai dyfrffyrdd sy'n cael eu prisio ar sail statudol arferol.

Rhwymedigaethau credyd: O dan Ran IV o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol neilltuo cyfrannau penodedig o'u *derbyniadau cyfalaf fel darpariaeth* yn erbyn rhwymedigaethau credyd (neu ddyled). Gellir defnyddio'r hyn sy'n weddill, a elwir *derbyniadau cyfalaf defnyddiadwy*, i ariannu *gwariant cyfalaf* neu gall yr awdurdod ei neilltuo'n wirfoddol fel darpariaeth i dalu rhwymedigaethau credyd. Yn ogystal, mae gofyn i'r awdurdodau wneud isafswm darpariaeth o'u cyfrifon refeniw i dalu rhwymedigaethau o'r fath a gallant wneud cyfraniadau refeniw gwirfoddol atodol.

Y tâl cymunedol: Fe'i cyflwynwyd yn lle'r ardrethi domestig ar 1 Ebrill 1990 ac fe gafodd ei ddiddymu a'i ddisodli gan y *dreth gyngor* ar 1 Ebrill 1993. Tâl (neu daliadau) lleol personol ydoedd a bennwyd gan yr *awdurdod bilio a'r awdurdodau praeseptio*, i gasglu refeniw, a oedd, o'i gymryd ynghyd â'u cyfrannau o gymorth y llywodraeth ganolog, yn ddigon i ariannu eu *gofynion cyllideb*. Yr oedd y tâl cymunedol personol yn daladwy, gydag ychydig o eithriadau, gan bawb 18 oed neu drosodd.

Taliadau cyfalaf: Yr elfen **taliadau cyfalaf** o *wariant refeniw* yw cost ad-daliadau dyled a'r llog sy'n daladwy ar fenthyciadau a godir i ariannu hen *wariant cyfalaf* a chyfraniadau refeniw uniongyrchol tuag at *wariant cyfalaf* yn y flwyddyn bresennol (gweler *gwariant cyfalaf a godir ar y cyfrif refeniw*).

Trefniadau Credyd: Ffurfiau ar gredyd nad ydynt yn cynnwys benthycia arian gan *awdurdod lleol*. Maent yn cynnwys prydlesau tir neu eiddo arall a chontractau sy'n darparu ar gyfer credyd estynedig yn yr ystyr bod mwy na blwyddyn ariannol lawn yn mynd heibio rhwng y cyfnod pan wnaeth yr awdurdod gaffael y gwerth a thalu'r gwerth hwnnw. Rhaid i sicrwydd credyd, er enghraifft, fel cymeradwyaeth credyd neu *dderbyniad cyfalaf*, fod ar gael ar gyfer cost lawn y trefniant yn y flwyddyn y gwneir y trefniant ynddi.

Treth gyngor: Tâl lleol personol a bennir gan yr *awdurdod bilio a'r awdurdodau praeseptio* - i gasglu refeniw, sydd o'i gymryd ynghyd â'u cyfrannau o gymorth y llywodraeth ganolog, yn ddigon i ariannu eu *gofynion cyllideb*. Disodlodd y *tâl cymunedol* ar 1 Ebrill 1993 ac mae wedi'i seilio ar werth yr eiddo a nifer yr oedolion sy'n byw yno. Asesodd Asiantaeth y Swyddfa Brisiol yr holl eiddo yn ardal pob cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol a neilltuo pob eiddo i un o naw band prisio; sef A i I. Caiff eiddo newydd eu prisio a'u gosod mewn band prisio yn ôl eu gwerth tybiannol ym 2003. Pennir y dreth wedyn ar sail y nifer o adeiladau sy'n cyfateb â band D ym mhob blwyddyn, a phennir lefelau'r dreth ar gyfer anheddau mewn bandiau eraill mewn perthynas â gwaelodlin band D.

Treth gyngor ar gyfer gwario safonol (CTSS): Y *dreth gyngor* y gallai pob awdurdod bilio ei phennu pe bai pob awdurdod yn ei ardal yn gwario ar lefel eu *hasesiad gwario safonol*. Dosberthir y *grant cynnal refeniw* i awdurdodau unigol ar y rhagdybiaeth bod pob awdurdod yn pennu *treth gyngor* sy'n gyfartal â'r ffigur hwn. Yn ymarferol, mae CTSS yn wahanol i'r *dreth gyngor* wirioneddol a bennir ym mhob awdurdod, gan fod pob awdurdod yn gwario ar lefel wahanol i'w *hasesiad gwario safonol*. Disodlodd CTSS y *tâl cymunedol* ar gyfer gwario safonol (CCSS) yn y flwyddyn ariannol 1993-94.